**<u>Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Llanrug a gynhaliwyd am 7:00 y.h. Nos Fawrth, 15 o Fedi 2020 drwy Zoom.</u>**

**Presennol:** Y Cynghorwyr Phil Roberts (Cadeirydd), Avril Jones (Is-gadeirydd), Iola Parry, Meirwen Lloyd, Beca Brown, Goronwy Hughes, Richard Robinson, Hefin Jones, Haf Williams, Cemlyn Jones, Martin Jones

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Alan Pritchard, Gwion Llwyd

**Hefyd yn bresennol:** Y Cynghorydd Berwyn Parry Jones, Aelod dros Cwm y Glo ar Gyngor Gwynedd.

**Aelod o'r cyhoedd:** Mrs Gemma Jones

**Clerc:** Meirion Jones

**660. I dderbyn croeso gan y Cadeirydd**

Estynnwyd croeso cynnes i bawb i'r cyfarfod a diolchwyd i bawb am eu presenoldeb. Croesawyd a diolchwyd i'r un aelod o'r cyhoedd am wrando fewn ar y cyfarfod.

**661. Derbyn ymddiheuriadau.**

Derbyniwyd ymddiheuriadau fel a nodwyd uchod

**662. Datgan buddiant personol.**

Eitem 675 – Y Cynghorydd Richard Robinson

**663. Cadarnhau cofnodion cyfarfod 18 Awst 2020**

Cadarnhawyd y cofnodion yn gywir ac fe'i arwyddwyd gan y Cadeirydd

**664. I dderbyn unrhyw sylwadau yn codi o'r cofnodion.**

**Eitem 647**

Adroddwyd nad oedd llythyr wedi anfon i'r cyn gynghorydd oherwydd fod sut i ymdrin a materion fel hyn yn eitem ar agenda heno. Adroddodd y Cadeirydd ymhellach ei fod wedi bod yn ymweld a Mr Clifford Williams.

**Eitem 649**

Adroddwyd fod pris is wedi dod i law a penderfynwyd derbyn y pris hwn. Y clerc i wneud y trefniadau angenrheidiol.

**Eitem 650**

Wedi ei gyfeirio tuag at Gyngor Gwynedd ond gyda ymateb nad oedd yn cael ei ystyried yn fater brys ond byddai yn cael sylw maes o law

**Eitem 651**

Y gwaith wedi ei wneud

**Eitem 652**

Wedi ei gyfeirio tuag at Gyngor Gwynedd ond gyda ymateb nad oedd yn cael ei ystyried yn fater brys ond byddai yn cael sylw maes o law

**665. I ystyried trefniadau Nadolig 2020 ac i ystyried ehangu ar y goleuadau presennol, symud y goeden Nadolig yn Cwm y Glo**

Adroddwyd fod y cyngor yn dilyn penderfyniad y pwyllgor hamdden ar 9fed o Orffennaf 2020 ac a gymeradwywyd gan y cyngor yn ei gyfarfod 21 o Gorffennaf 2020. Penderfyniad y cyngor bryd hynny oedd fel a nodir isod oddi tan eitem 631 (f)

*Trefniadau Nadolig 2020. Ymysg y materion a drafodwyd oedd cystadleuaeth ar gyfer busnesai a tai lleol addurno a gofynnir i bob aelod wneud ymholiadau cyn cyfarfod Awst am eu syniadau a gweld beth mae'r gymuned yn ei hoffi.*

**Penderfynwyd:** Parhau i leoli'r coed Nadolig yn eu lleoliadau presennol ar gyfer Nadolig 2020. Ni dderbyniwyd adroddiadau am ymholiadau gyda aelodau o'r cyhoedd.

**666. I ystyried strategaeth y cyngor ar gyfer 2021 / 2022 a'r dyfodol**

Adroddwyd ei fod yn ofynnol i'r cyngor gael strategaeth ar gyfer y 3 neu 4 blynedd nesaf fel sail i godi'r swm o praesept a penderfynu ar sut mae'r cyngor am gario allan ei waith. I gychwyn y broses hyn bydd yn ofynnol ymgysylltu a'r gymuned ynghyd a pwyllgorau gyfarfod a dod ac unrhyw syniadau neu 'restr siopa' ger bron.

**Penderfynwyd:** I'r pwyllgorau gyfarfod a rhestr eu nod ac amcanion ar gyfer y dyfodol ynghyd a paratoi holiadur ar gyfer trigolion.

**667. I ystyried cynllun ar gyfer anrhydeddu unigolion sydd wedi gwasanaethu'r gymuned.**

**Penderfynwyd:** Gohirio'r penderfyniad tan gyfarfod Hydref.

**668. Logo'r Cyngor – angen penderfynu os yn aros gyda'r un presennol neu ei ddiweddaru a'i gael ar 'hi res'. Neu yn gyfle i ddyfeisio logo newydd.**

Adroddwyd fod y logo cyfredol yn hen ac nad oedd yn adlewyrchu'r gymuned rydym yn byw ynddi nawr ac fod angen ei ail gynllunio.

**Penderfynwyd:** Cynnal cystadleuaeth a'i hysbysebu drwy'r:-

a) Ysgol Gynradd;
b) Ysgol Uwchradd;
c) Clwb Ieuenctid
d) Cyfrif Facebook y cyngor

Roedd yn amod fod yr ymgeiswyr yn byw oddi fewn i ardal Cyngor Cymuned Llanrug. Byddai gwobr o docyn llyfr yn cael ei roi i'r enillydd.

**669. I dderbyn diweddariad ar sefyllfa mynwent Eglwys Saint Mihangel, Llanrug**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Hefin Jones, fod cyfarfod wedi gynnal yn ddiweddar yn mynwent yr Eglwys i gael trosolwg ar beth fyddai yn ddisgwyliedig o ran yr asesiad risg. Ymysg yr hyn a adnabyddwyd oedd y coed, y cerrig beddi a cyflwr y llwybrau.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad.

**670. I fabwysiadu polisi tabledi ar gyfer aelodau (copi eisoes wedi ei rannu)**

**Penderfynwyd:** Derbyn y polisi a sicrhau fod yr aelodau yn ei arwyddo a'i ddychwelyd yn ôl i'r clerc.

**671. I ystyried cwyn a dderbyniwyd am ddŵr yn llifo ar ystâd Glanffynnon, Llanrug (Cyng Gwion Llwyd)**

Yn absenoldeb y Cynghorydd roedd manylion i gwyn tipyn bach yn fyr ond adnabuwyd fod sawl problem yn bodoli gyda draeniau i lawr hyd Ffordd Glanffynnon.

**Penderfynwyd:** Y byddai aelodau'r cyngor ynghyd a'r Cynghorydd Berwyn Parry Jones yn cysylltu a Dwr Cymru i ddod a'r broblem i'w sylw

**672. I ystyried cwyn a dderbyniwyd parthed dwr yn casglu ar lwybr Rhos Ddu (Cyng Beca Brown)**

Adroddwyd fod cwyn wedi dderbyn am gyflwr y llwybr Rhos Ddu fod dwr yn casglu ar rannau ohono ac ei fod yn hawdd i rhywun lithro arno.

**Penderfynwyd:** Adrodd y mater i Gyngor Gwynedd

**673. I dderbyn adroddiad gan y Cyng. Berwyn Parry Jones ar weithgareddau Cyngor Gwynedd.**

**Tai**

O'r diwedd mae'r broses newydd o Gosod Tai sef yr hen dai cyngor wedi newid o sustem pwyntiau i system "bandio". Mwy o flaenoriaeth i bobol lleol a pobol sydd wedi bod yn disgwyl hiraf am dai.

**Addysg**

Yr ysgolion i gyd wedi mynd yn ôl erbyn hyn, i rhyw fath o normalrwydd, ond yn amlwg fedr pethau newid dros nos.

Llywodraeth Cymru wedi penderfynu cynnig grant i awdurdodau addysg i brynnu cyfarpar digidol, er mwyn galluogi pob disgybl cael mynediad at gyfarpar digidol, os wneith yr Awdurdodau wedyn ymrwymo i'w diweddaru fel bo angen. Y cyngor wedi penderfynu mynd am y grant ac wedyn trafod gyda'r ysgolion os ydynt yn fodlon ariannu hyn o cyllidebau presennol yr ysgol.

**Cynllunio**

Mae na symudiad diweddar i geisio rhoi stop ar werthiant ail gartrefi, mae na fwy a fwy yn cael eu gwerthu fel ail gartrefi.

**Cyfyngiad Cyflymder**

Falch o weld fod y Cyngor Sir yn cysidro lleihau cyflymder traffig i lawr i 40 o 50 yn arwain o Cwm y glo i Llanrug. Rhywbeth dwi wedi bod yn gofyn am ers tair blynedd. Dwi hefyd am ofyn am paent coch ar y mannau croesi tŷ allan i Dol Afon

**Cyfarfod y Wyddfa**

Wedi holi heddiw, mae bwriad cynnal cyfarfod, ddim yn siŵr os fydd hyn yn ffisegol neu trwy Zoom, nifer o gynghorau cymuned wedi mynegi y buasent yn hoffi bod yn rhan o'r cyfarfod. Tebygrwydd yw mae mis Hydref fydd y cyfarfod. Er gwybodaeth rydym yn disgwyl cynnig i godi tâl ar fynediad i'r Wyddfa ddod i'r cyngor llawn yn mis Hydref.

**Ail-gylchu.**

Cwestiwn a fyddai y sustem gwneud apwyntiad yn para ynte a fyddai pethau yn mynd yn ôl i fel ac yr oedd. Mi fudd ymgynghoriad yn digwydd tua diwedd y mis.

**Ceir wedi ei gadael**

Rwyf wedi cael cwynion am geir sydd wedi cael ei gadael neu "abandoned" mewn gwahanol mannau yn y ward, delio hefo rheini trwy Adran Amgylchedd y Cyngor, gan obeithi fyddant yn cael eu symud yn fuan.

**674. I dderbyn adroddiad gan bwyllgor hamdden a mwynderau**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Cemlyn Jones fod angen arwydd yn y parc yn tynnu sylw at ei reolau ac amodau defnydd o'r parc. Adroddwyd ynhwllach fod defnyddwyr yn creu offer ei hunain, e.e. rampiau pren ac fod rhain yn beryglus ac ni ddylai neb ddod ag offer eu hunain i'r parc.

**Penderfynwyd:** Y Clerc i drefnu enghraifft o reolau, ymgysylltu a'r pwyllgor hamdden a gofyn wrth 'Designer Signs o Benygroes' wneud a gosod yr arwydd yn y parc sglefrio.

**675. Ceisiadau Cynllunio – am fwy o fanylion am y ceisiadau yma, dilynwch y linc yma ble gellir chwilio am y cais drwy ddyfynnu 'Rhif y cais'.**
**https://amg.gwynedd.llyw.cymru/planning/index.html?fa=search**

Dangosodd y Cynghorydd Richard Robinson ddiddordeb yn yr eitem yma a ni chymerodd ran yn y drafodaeth.

**Rhif y Cais: C20/0376/23/AC**
**Math o Gais: Diddymu/Amrywio Amod(au)**
**Bwriad: Diwygio amod rhif 2 o ganiatad cynllunio C20/0180/23/LL er mwyn gwneud newidiadau i ddyluniad y ty**
**Ymgeisydd: Mr Owain Williams**
**Cyfeiriad: Bryn Gwyn Mawr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4RG**
**Ward: Cwm y Glo**
**Cymuned: Llanrug**

**Penderfynwyd:** Cefnogi'r cais

Daeth y cyfarfod i ben am 20:40

Arwyddwyd:

Cadeirydd: Dyddiad: